Creithiau

(Wedi imi gwrdd â goroeswr o'r Holocost)

Daeth i'n plith fel unrhyw daid,
Ei wyneb yn grychau, ac ôl marc sbectol ar ei drwyn.
Gwên lydan, garedig a'i ddwylo cynnes
yn pysgota am y paced mintys yn llwch ei boced.

Ond yna, agorodd giatiau ei hanes
A'n cymell i gamu drwyddynt,
Ein cludo o Gymru ein presennol
I'w Almaen gynt, dan grafanc y Natsi.
A'i brop oedd y nod ar ei arddwrn
Yn atgof parhaol o'i orffennol
A'r uffern fawr a brofodd.

Na, nid unrhyw daid cyffredin mohono,
A'r graith a lechai dan ei lawes
Yn ein siarsio i drysori ein dyfodol.

Lois Medi Wiliam
10C1